# GORCHYMYN CYDGRYNHOI SIR GAERFYRDDIN (MANNAU PARCIO ODDI AR Y STRYD) (PENTRE AWEL, LLANELLI) (AMRYWIAD RHIF 5) 2025

---

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin, trwy arfer ei bwerau o dan Adrannau 32, 33 a 35, a Rhan IV o Atodlen 9 i Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 (fel y'i diwygiwyd), Deddf Rheoli Traffig 2004 a'r holl bwerau galluogi eraill, ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog yr Heddlu yn unol â Rhan III o Atodlen 9 i Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 (fel y'i diwygiwyd), trwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol:-

1. Mae "Gorchymyn Cydgrynhoi Cyngor Sir Caerfyrddin (Mannau Parcio Oddi ar y Stryd) 2014" (y cyfeirir ato o hyn ymlaen fel "y Gorchymyn Cydgrynhoi") trwy hyn yn cael ei amrywio drwy gynnwys y man parcio a bennir ac a ddisgrifir yng ngholofnau A a B o'r Atodlen i'r Gorchymyn hwn ar gyfer y mathau o gerbydau a bennir yng ngholofn C i barcio yn y man a bennir yng ngholofn D yn ystod yr oriau codi tâl a bennir yng ngholofn F, yn ddarostyngedig i'r taliadau a'r cyfyngiadau amser a bennir yng ngholofnau E ac G o'r Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

2. Ac eithrio fel y'i hamrywiwyd gan baragraff 1 o'r Gorchymyn hwn, bydd y Gorchymyn Cydgrynhoi yn parhau i fod mewn grym.

3. Bydd y Gorchymyn hwn yn dod i rym ar y XXX o XXX Dwy Fil a Dau Ddeg Pump a gellir cyfeirio ato fel "Gorchymyn Cydgrynhoi Sir Gaerfyrddin (Mannau Parcio oddi ar y Stryd) (Pentre Awel, Llanelli) (Amrywiad Rhif 5) 2025".

**GWNAED** o dan Sêl Gyffredin Cyngor Sir Caerfyrddin ar y XXX o XXX Dwy Fil a Dau Ddeg Pump

| | |
|---|---|
| Rhoddwyd SÊL GYFFREDIN | ) |
| **CYNGOR SIR CAERFYRDDIN** | ) |
| ar y ddogfen hon | ) |
| ym mhresenoldeb: | ) |

..........................................................................................................

**Steven P Murphy**

**Pennaeth y Gyfraith, Llywodraethu a Gwasanaethau Sifil**

## YR ATODLEN

**Mannau Parcio a Thaliadau**

| **A**<br><br>**Man Parcio** | **B**<br><br>**Cyfeirnod Map** | **C**<br><br>**Y Mathau o Gerbydau** | **D**<br><br>**Y Mannau Lle Caiff Cerbydau Aros** | **E**<br><br>**Cyfnod Dim Dychwelyd** | **F**<br><br>**Oriau Codi Tâl** | **G**<br><br>**Graddfa'r Taliadau a'r Cyfnod Aros Hwyaf** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Pentre Awel, Llanelli | EF202 ac EG202 | Cerbydau nad yw'n pwyso mwy na 3.5 tunnell yn ei grynswth.<br><br>Cerbydau sy'n llai na 2 fetr (6 throedfedd a 6.7 modfedd) o uchder.<br><br>Cerbydau a adeiladwyd dim ond ar gyfer cludo dim mwy nag wyth o deithwyr (heb gynnwys y gyrrwr). | Yn gyfan gwbl o fewn y lleoedd parcio a ddynodwyd ac nid mewn lle y nodwyd ei fod wedi ei gadw ar gyfer math arbennig o ddefnyddiwr. | 1 awr. | Dydd Llun i ddydd Gwener (yn gynwysedig)<br><br>8:00am tan 6:00pm<br><br>Dydd Sadwrn a dydd Sul<br><br>8:00am tan 4:00pm | £0.00 (0-3 awr)<br><br>£3.50 (3-4 awr)<br><br>£5.00 (Drwy'r Dydd) |